Bridgend County Borough Council

# Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Cyngor Cymuned Trelales

## ADRODDIAD Y CYNIGION DRAFFT

## Medi 2026

Dylid anfon pob sylw ynghylch y cynigion drafft hyn i

Y Gwasanaethau Etholiadol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Neu drwy e-bost i: cgr@bridgend.gov.uk

ddim hwyrach na 19/10/2026

## Tudalen Y Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | **Crynodeb o'r Cynigion Drafft** | **2** |
| **Pennod 2** | **Polisi Maint y Cyngor** | **3** |
| **Pennod 3** | **Y Cynigion Drafft** | **4** |

**ATODIAD 3** **SYLWADAU A DDERBYNIWYD**

## Pennod 1. CRYNODEB O'R CYNIGION DRAFFT

Mae dyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dan Adran 55(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnal adolygiad o ffiniau a threfniadau etholiadol y cymunedau o fewn Pen-y-bont ar Ogwr. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, yn dilyn derbyn cais ffurfiol gan Gyngor Cymuned Trelales, cytunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yng nghyfarfod y Cyngor ar y 14ain o Fehefin 2026 i gychwyn adolygiad o drefniadau etholiadol Trelales.

Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus o'r bwriad i gychwyn adolygiad o Gyngor Cymuned Trelales ar y 26ain o Fehefin 2026 drwy gyhoeddi'r Cylch Gorchwyl.

Dechreuodd yr ymgynghoriad 6-wythnos cychwynnol ar y 26ain o Fehefin 2026, gan wahodd rhanddeiliaid i anfon sylwadau cychwynnol, oedd i gael eu cyflwyno drwy'r post neu e-bost i'r Swyddfa Etholiadau. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Awst 2026.

Wrth lunio'r cynigion drafft, cafodd y cynigion gwreiddiol eu hadolygu gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

## Pennod 2. POLISI MAINT Y CYNGOR

1. Mabwysiadodd y Cyngor 'Bolisi Maint Cynghorau Tref a Chymuned' mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar yr 17eg o Ebrill 2024.

2. Maint delfrydol etholaeth ar gyfer cyngor cymuned yw oddeutu 5,000 o etholwyr heb faint uchafsymiol.

3. Wrth bennu'r gymhareb o gynghorwyr i etholwyr, cynigir defnyddio canllawiau Ysgol Fusnes Aston a gyhoeddwyd yn 1992 i roi lefel o hyblygrwydd wrth benderfynu ar y cymarebau. Gwelir eu harweiniad hwy isod yn Nhabl 2: -

**Tabl 2 – Cymhareb Cynghorwyr i Etholwyr**

| Etholwyr | Dyraniad Cynghorwyr |
|---|---|
| Llai na 500 | 5 – 8 |
| 501 – 2,500 | 6 – 12 |
| 2,501 – 10,000 | 9 – 16 |
| 10,001 – 20,000 | 13 – 27 |
| Mwy na 20,000 | 13 - 31 |

4. Bydd angen paredd yn y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr rhwng wardiau yng Nghyngor Cymuned Trelales.

## Pennod 3. Y CYNIGION DRAFFT

1. Mae gan Gyngor Cymuned Trelales dair ward: Trelales/Bryntirion, Cefn Glas 1 a Cefn Glas 2. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn newid y wardiau hyn nac yn ystyried newid y ffiniau.

2. Mae trefniadau'r cyngor cymuned yn Nhrelales ar hyn o bryd yn cynnwys cyfanswm o 10,295 o etholwyr ac maent yn cael eu cynrychioli gan 13 o gynghorwyr cymuned

| Ward Cymuned | Etholwyr | Nifer y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| Trelales/Bryntirion | 7,026 | 5 |
| Cefn Glas 1 | 1,412 | 4 |
| Cefn Glas 2 | 1,857 | 4 |
| **Cyfanswm** | **10,295** | **13** |

### Sylwadau

3. Derbyniodd y Cyngor 3 sylw ynghylch cymuned Trelales.

### Trefniadau Etholiadol y Cyngor Cymuned

4. Bydd trefniadau arfaethedig y cyngor cymuned yn Nhrelales yn cynnwys cyfanswm o 10,295 o etholwyr a chânt eu cynrychioli gan 15 o gynghorwyr cymuned.

5. Gellir gweld trefniadau etholiadol arfaethedig y Cyngor ar gyfer y cyngor cymuned isod:

| | **Cyngor Cymuned Trelales** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Yn bod eisoes** | | | | **Arfaethedig** | | | |
| Wardiau | Etholwyr | Cynghorwyr Cymuned | Etholwyr i Gynghorydd | Amrywiad | Etholwyr | Cynghorwyr Cymuned | Etholwyr i Gynghorydd | Amrywiad |
| Trelales/Bryntirion | 7,026 | 5 | 1,405 | 77% | 7,026 | 10 | 703 | 3% |
| Cefn Glas 1 | 1,412 | 4 | 353 | -55% | 1,412 | 2 | 706 | -10% |
| Cefn Glas 2 | 1,857 | 4 | 464 | -41% | 1,857 | 3 | 619 | 2% |
| **Cyfanswm** | **10,295** | **13** | **792** | | **10,295** | **15** | **686** | |

Mae'r Cyngor wedi cynnig 15 aelod o'r cyngor, sy'n gynnydd o 2 ar y trefniadau presennol ac sydd yn cyd-fynd â Pholisi Maint y Cyngor. Cred y Cyngor y byddai'r trefniadau newydd yn gwella lefel effeithiolrwydd a hwylustod llywodraeth leol yn yr ardal ac yn sicrhau lefelau gwell o baredd etholaethol.

# Atodiad 3 Sylwadau a Dderbyniwyd o'r Ymgynghoriad Cychwynnol

Sylwadau ac adborth a dderbyniwyd yn y Swyddfa Etholiadau ynghylch y cyfnod ymgynghori cychwynnol ar gyfer Adolygiad Trefniadau Etholiadol Cyngor Cymuned Trelales

## Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost gan Gyngor Cymuned Trelales

Yng nghyfarfod y Cyngor yr wythnos ddiwethaf, penderfynwyd cyfeirio'r canlynol yn ôl atoch fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ar hyn o bryd mae 13 o gynghorwyr ar gyfer yr ardal, fy awgrym yw gadael hyn ar 13 ar gyfer yr adolygiad hwn a'i ailystyried fel rhan o unrhyw adolygiad ffiniau dilynol.

Caiff 850 o dai eu hadeiladu ar dir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr fel y'i dyrannwyd yn y CDLl, gan dybio cymhareb o 1.5 o etholwyr fesul aelwyd, byddai hyn yn cynyddu nifer yr etholwyr yn ward Trelales/Bryntirion o 7,046 i 8,321. Mae angen ystyried hyn wrth gyfrifo cyfanswm nifer y cynghorwyr a'r rhaniadau rhyngddynt.

Yn fathemategol, y canlyniad gorau fyddai i Gefn Glas 1 a 2 gael 2 gynghorydd yr un fesul ward - er y byddai hyn yn dal i olygu anghydraddoldeb o ran etholwyr fesul cynghorydd yng Nghefn Glas 1 heb newid ffin, dyma'r unig ganlyniad rhesymegol. Yna dylid rhoi 9 cynghorydd i ward Trelales/Bryntirion. Byddai hyn yn golygu’r canlynol:

| Cyngor Cymuned Trelales | Etholwyr y Cyngor | Cartrefi newydd *1.5 | Cyfanswm | Nifer presennol o gynghorwyr | Cymhareb Cynghorydd/ Etholwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Glas 1 | 1,411 | | 1,411 | 2 | 706 |
| Cefn Glas 2 | 1,861 | | 1,861 | 2 | 931 |
| Trelales / Bryntirion | 7,046 | 1,275 | 8,321 | 9 | 925 |

Hoffwn nodi bod y penderfyniad wedi ei dderbyn yn unfrydol fel y ffordd ymlaen a ystyriwyd. Nid oedd unrhyw anghytuno ar y cynnig, ac rydym yn gofyn iddo gael ei ystyried o ddifrif.

Byddai'r Cyngor hefyd yn dymuno i'r adolygiad ffurfiol o'r ffin gael ei gynnal cyn gynted ag y bo modd.

## Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Spiller:

Bore Da,

Yn dilyn yr isod, hoffwn wneud y sylwadau canlynol ar y cynnig i adolygu'r trefniadau etholiadol o fewn wardiau Cyngor Cymuned Trelales cyn etholiadau lleol 2027.

Mewn byd delfrydol, byddem yn adolygu ffiniau Cyngor Cymuned Trelales i sicrhau bod ffiniau mewnol y gymuned yn cynrychioli cydbwysedd. Byddwn yn cefnogi'n gryf ail-alinio Dôl Morgan o fewn Cefn Glas, ynghyd â wardiau newydd Trelales/Bryntirion a Broadlands, ac uno Cefn Glas 1 a 2 – rwyf yn deall nad yw hyn yn bosibl o fewn yr adolygiad.

Felly, rwyf yn credu bod angen gweithredu'r canlynol:

Ar hyn o bryd mae 13 o gynghorwyr ar gyfer yr ardal, fy awgrym i yw gadael hyn ar 13 ar gyfer yr adolygiad hwn a'i ailystyried fel rhan o unrhyw adolygiad ffiniau dilynol.

Bydd 850 o dai yn cael eu hadeiladu ar dir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr fel y'i dyrannwyd yn y CDLl, gan dybio cymhareb o 1.5 o etholwyr fesul aelwyd, byddai hyn yn cynyddu nifer yr etholwyr yn ward Trelales/Bryntirion o 7,046 i 8,321. Mae angen ystyried hyn wrth gyfrifo cyfanswm y cynghorwyr a'r rhaniadau rhyngddynt.

Yn fathemategol, y canlyniad gorau fyddai i Gefn Glas 1 a 2 gael 2 gynghorydd yr un fesul ward - er y byddai hyn yn dal i olygu anghydraddoldeb o ran etholwyr fesul cynghorydd yng Nghefn Glas 1 heb newid ffin, dyma'r unig ganlyniad rhesymegol. Yna dylid rhoi 9 cynghorydd i ward Trelales/Bryntirion. Byddai hyn yn golygu’r canlynol:

| Cyngor Cymuned Trelales | Etholwyr y Cyngor | Cartrefi newydd *1.5 | Cyfanswm | Nifer presennol o gynghorwyr | Cymhareb Cynghorydd/ Etholwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefn Glas 1 | 1,411 | | 1,411 | 2 | 706 |
| Cefn Glas 2 | 1,861 | | 1,861 | 2 | 931 |
| Trelales / Bryntirion | 7,046 | 1,275 | 8,321 | 9 | 925 |

## Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Harrison:

Rwyf yn hapus gyda’r cynigion.

## Pennod 4. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Dylid anfon pob sylw ynghylch y cynigion drafft hyn i:

   Y Gwasanaethau Etholiadol
   Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
   Y Swyddfeydd Dinesig
   Stryd yr Angel
   Pen-y-bont ar Ogwr
   CF31 4WBL

   Neu drwy e-bost i:

   cgr@bridgend.gov.uk

   ddim hwyrach na 07/04/2025.

2. Am wybodaeth bellach ynghylch yr adolygiad a'r broses adolygu edrychwch ar wefan y Cyngor: www.bridgend.gov.uk/my-council/elections/boundary-reviews/